# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bodfeurig

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bodfeurig yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd â gofal a charedigrwydd. Mae’r ethos cynhwysol a theuluol yn sicrhau bod bron bob disgybl yn hapus ac yn teimlo’n ddiogel. Mae’r disgyblion hynaf yn cefnogi’r rhai ieuengaf yn ofalus, gan feithrin medrau cymdeithasol cadarn.

Mae’r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i’r ysgol. Mae gweithdrefnau hunanwella cadarn wedi’u sefydlu, sy’n galluogi gwelliannau yn y ddarpariaeth er lles a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo’r Gymraeg gan sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn llwyddiannus. Mae staff yn gosod pwyslais cryf ar ddiwylliant Cymreig sy’n cefnogi disgyblion i deimlo’n falch o’u medrau dwyieithrwydd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sgwrsio’n naturiol gydag ymwelwyr a chyfoedion. Maent yn datblygu eu medrau darllen yn gadarn ac yn dangos mwynhad wrth ymgolli mewn gwahanol destunau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ysgrifenwyr hyderus ac aeddfed yn y Gymraeg. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn adeiladol dros amser.

Mae staff yn defnyddio’r amgylchedd dysgu yn effeithiol i ysgogi disgyblion, gan ddarparu cymorth a her briodol. Mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn dangos balchder yn eu gwaith. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn annibynnol ar draws y cwricwlwm. Ar adegau, mae gor-arwain gan staff yn arafu gallu'r disgyblion ieuengaf i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a chreadigol yn gyson.

Mae arweinwyr a staff yn gweithio’n agos gyda’r llywodraethwyr, rhieni a’r gymuned leol i ddarparu profiadau ysgogol a diddorol i ddisgyblion. Mae’r pennaeth yn caffael barn rhieni ac yn ymateb yn rhagweithiol ac amserol i’r canfyddiadau. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn treiddio’n werthfawr ar draws cymuned glòs yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Datblygu medrau ysgrifennu Saesneg disgyblion

A2 Darparu cyfleoedd cyson i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a chreadigol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2025